



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



**CODI DYHEADAU
CODI SAFONAU
Llwyddiant i bob plentyn**



Gwella deilliannau addysgiadol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2021-2026

Crynodeb

Strategaeth bum mlynedd i wella a chynnal y deilliannau addysgiadol uchaf posibl i bob plentyn ledled Merthyr Tudful. Bydd yn sicrhau y dechrau gorau posibl i fywyd fel bod gan blant a phobl ifanc sy'n gadael addysg y sgiliau, cymwysterau a'r dyhead i wneud eu gorau glas drwy gydol eu bywydau.



Cynnwys

Rhagair	2
Yr Achos dros Newid.....	3
Cyd-destun Manwl	4-5
Gweledigaeth a Gwerthoedd.....	6
Deilliannau a Ddymunir	7
Themâu a Nodau	8-20
Themâu	9-10
Partneriaeth a chydweithio	9
Adferiad ar ôl y Pandemig	10
Nodau	11-20
Rheoli Perfformiad a Llywodraethu System	11-12
Datblygu'r Gweithlu Addysg	13-14
Cefnogi Iechyd a Llesiant Dysgwyr	15-16
Gwella Cyfawniad a Dilyniant	17-18
Datblygu'r Amgylchedd ar gyfer Dysgu	19-20



Rhagair

Fel partneriaid addysg ym Merthyr Tudful rydym yn falch o nodi'r strategaeth hon fel ein hymrwymiad i gyflawni'r gorau i blant a phobl ifanc Merthyr Tudful. Mae'n cydnabod bod canlyniadau i'n pobl ifanc yn cael eu siapio'n annatod y tu allan i'r ysgol gan deuluoedd a chymunedau.

Mae pawb yng nghymuned addysg Merthyr Tudful yn credu bod gan ein holl blant a phobl ifanc hawl i gael y cyfleoedd bywyd gorau posibl. Rydym yn sylweddoli mai dim ond trwy wella eu mynediad at gyfleoedd addysgol o'r ansawdd uchaf y gellir cyfawni hyn, a thrwy eu cefnogi a'u hannog i fod y gorau y gallant fod.

Ar hyn o bryd, er y bu llwyddiannau mewn sawl maes, rydym yn derbyn bod angen i ni i gyd wneud mwy i sicrhau newid cynaliadwy i'n plant a'n pobl ifanc. Mae'r canlyniadau ar draws ein hysgolion yn rhy amrywiol ac mae hyn, ynghyd â chanlyniadau'r pandemig Covid-19, yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth canolbwyntio ar wella sgiliau bywyd a chyfawniadau academiaidd ein holl blant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod yr heriau niferus sydd o'n blaenau, ond credwn yn gryf y gallwn, trwy weithio mewn partneriaeth, gyflawni'r uchelgeisiau ar gyfer ein holl blant a phobl ifanc a nodir yn y ddogfen strategaeth hon.

LISA MYTTON
(Arweinydd y Cyngor â
Phortffolio ar Dysgu)



HARVEY JONES
(Cadeirydd Pwyllgor Craffu Dysgu)

ELLIS COOPER
(Prif Weithredwr)



LAURENCE MATUSZCZYK
(Cadeirydd Cymdeithas y Llywodraethwyr)

KRYSTIAN MACIEJCZYK
(Maer Ieuencid, Fforwm Ieuencid
Eang Bwrdeistref Merthyr Tudful)

LISA THOMAS
(Prifathro a Phrif Weithredwr,
Coleg Merthyr)

KAREN WATHAN
(Ffederasiwn Penaethiaid –
Cynrychiolydd Cynradd)

STUART JAMES
(Ffederasiwn Penaethiaid –
Cynrychiolydd Uwchradd)



Yr Achos dros Newid

Mae hanes hir a balch gan Ferthyr Tudful. Roedd ein gorffennol ynghlwm wrth ddiwydiant trwm, ond bellach, twristiaeth, manwerthu, gweithgynhyrchu ysgafn, y sectorau cyhoeddus a gwasanaethau yw ein presennol a'n dyfodol. Mae cynllun meistr â gweledigaeth ac aml-strategaeth dros gyfnod o 25 mlynedd yn cael ei ddatblygu a fydd yn gweld hanes ein tref yn cael ei ddefnyddio i gefnogi adfywiad a datblygiad diwylliannol Ardal Treftadaeth Cyfarthfa, Merthyr Tudful a thu hwnt.¹

Fodd bynnag, rhaid gosod hyn yng nghyd-destun cyfөөedd addysgiadol i'r holl blant a phobl ifanc, ble y caiff dysgu ei werthfawrogi wrth gefnogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau uchelgeisiol o ran dewis gyrfa yn y dyfodol.

Bu cyfawniad academiaidd ledled y Fwrdeistref Sirol yn newidiol am yn llawer rhy hir gan weld gormod o bobl ifanc yn methu â chyfawni eu potensial academiaidd. Tra bo pobl ifanc sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cystal â phlant cymwys eraill ledled Cymru sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ni ellir dweud yr un modd am y bobl ifanc hynny nad oeddent yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r bwlch rhwng ardaloedd eraill tebyg yng Nghymru wedi lledaenu dros y blynyddoedd diwethaf. Ni wnaeth partneriaid allweddol a rhanddeiliaid lywio newid sylfaenol na derbyn bod newid sylfaenol yn ofynnol er mwyn cyfawni'r deilliannau uchaf posibl ar gyfer pob person ifanc, gan sicrhau fod y newid hwn yn gynaliadwy. Rhaid i'r newid sylfaenol hwn gael ei danategu gan y gysnabyddiaeth fod llwyddiant ein pobl ifanc yn gyfrifoldeb i bawb – dyma gryfder maint cywasgedig y Fwrdeistref Sirol – ac y gallwn gyfawni, drwy weithio mewn partneriaeth, lawer mwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Wrth ystyried ei maint, mae gwneuthuriad diwylliannol amrywiol gan Ferthyr Tudful. Nid Saesneg yw iaith gyntaf 8% o'n poblogaeth ysgol, ac mae tua 25 o ieithoedd yn cael eu cynrychioli ar draws ein hysgolion. Mae 31% o'n disgyblion â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn mynychu ein hysgolion Ffydd.

Ar adeg Cyfrifad 2011, dynododd 8.64% o'r boblogaeth eu bod yn gallu siarad Cymraeg, eto gwnaeth Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Gorffennaf 2019, amcangyfrif fod y ganran hon bellach tua 18.5 % o'r boblogaeth. Ar hyn o bryd mae gan y Fwrdeistref Sirol ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda thrydedd ysgol yn rhan o Gynllun Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Nid oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful. Mae 99% o'r disgyblion o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn derbyn eu haddysg uwchradd y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Strategaeth #Shwmaeronment yn anelu at hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ac o'i hamgylch ac mae'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r pandemig wedi, ac mi fydd yn ergyd pellach i'r economi ond mae sicrhau fod pob person ifanc yn gadael addysg statudol gyda'r proffil academiaidd gorau posibl yn rhagofyniad ar gyfer twf a diogelwch cynaliadwy yn y dyfodol.

Er bod ysgolion yn draddodiadol wedi cael eu gweld fel cadarnleoedd addysg, nid rôl yr athro yn unig yw'r llwybr at ddysgu llwyddiannus, ac nid ailadrodd gwybodaeth yw nod addysg mwyach. Rhaid i leoliadau addysgiadol a'u partneriaid addasu a pharatoi'r plant a'r bobl ifanc gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr 21 Ganrif – mae maethu dysgu annibynnol a defnyddio technoleg i'w gefnogi yn elfen allweddol o hyn.

Rhaid derbyn fod addysg ein plant a'n pobl ifanc o fusnes i bawb.

¹ Cynllun Cyfarthfa

Cyd-destun Manwl

Cymdeithasol ac Economaidd

Yn 2018, cyfanswm poblogaeth Merthyr oedd tua 60,000 yn cynnwys 37,500 o bobl rhwng 16 a 64 oed, ychydig llai na 11,500 yn iau a thua 11,000 yn hŷn.

Mae cyfartaledd incwm cartref yn y Fwrdeistref Sirol yn is na chyfartaledd Cymru ac mae 20.1% o gartref ym Merthyr Tudful yn byw mewn tldi tanwydd o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 16.8%.

Mae ffigurau Cyfrifad 2011 yn dangos fod canran dinasyddion sy'n economaidd anweithredol ym Merthyr Tudful dros 1% yn uwch na chyfartaledd Cymru a thra bo ymdrech sylweddol wedi cael ei wneud ers hynny i wella'r sefyllfa yn y Fwrdeistref Sirol, mae ffigurau diweddar yr Adran Waith a Phensiynau'n dangos:

- Gwnaeth diweithdra barhau i godi yn ystod y Cyfnod Clo a bellach saif ar 7.4% sef yr ail uchaf yng Nghymru
- Ym mis Mawrth 2020, roedd diweithdra pobl 18-24 oed yn 6.6%
- Ym mis Ebrill 2020, cododd diweithdra pobl 18-24 oed i 11% gyda 530 o bobl ifanc yn hawlio budd-daliadau

Mae 26,400 o bobl yn y Fwrdeistref Sirol mewn cyfogaeth. O'r rheini, mae:

- 24,200 mewn cyfogaeth a delir;
- 2,500 yn hunangyfodedig; a
- 22.3% o'r rheini a gyfogr ar ffyrlo ar hyn o bryd.

Mae tua 44% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn cymudo i'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol am eu gwaith. Mae'r Cyngor Fwrdeistref yn or-ddibynol ar gyfogaeth yn y sector cyhoeddus ac yn ddiffygiol o ran cyfeuedd yn y sector preifat, mewn cyfogaeth o werth uwch a chfyg uwch.

Yn y fwyddyn unigol 2017/2018, cafodd 15.6% o blant pedair i bump oed ym Merthyr eu dynodi'n

ordew; sef y ganran uchaf yng Nghymru. Dros y cyfnod o bum mlynedd i fyny at ac yn cynnwys 2017/18, dynodwyd bod 16.4% o blant pedair i bump oed yn ordew, gyda 5.1% yn cael eu dynodi fel difrifol ordew – sy'n sylweddol uwch nac unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

Dangosodd yr arolwg mwyaf diweddar o ysgolion gan Chwaraeon Cymru (2018) fod 46% o'r bobl ifanc yn yr arolwg yn ymgymryd ag ymarfer corff dair gwaith, dau bwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer oedolion, saif y ffigur ar 22% (2018/19) sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 32%.

Addysg

Dros y deng mlynedd ddiwethaf, bu perfformiad addysg ledled y Fwrdeistref Sirol yn destun pryder.

Yn 2012, cafodd yr awdurdod ei osod mewn Mesurau Arbennig yn dilyn arolwg gan Estyn. Cafodd ei gymryd oddi ar y safe hwn yn 2016 ar ôl dyfarnu ei fod wedi gwella'n ddigonol yn ystod y cyfnod cyfamserol. Fodd bynnag, ers hynny, mae safonau diwedd Cyfnod Allweddol 4 wedi dirywio.

O'r pedair ysgol uwchradd dim ond un bellach sy'n gyson berfformio'n uwch na'r deilliannau ar gyfer ysgolion mewn cyd-destun tebyg. Rhaid gofyn cwestiynau heriol am effaith gynaliadwy'r newidiadau a wnaed yn ystod yr amser hwnnw.

Erbyn 2016, roedd tair allan o'r pedair ysgol uwchradd wedi derbyn arian Her Ysgolion Cymru. Gwnaeth hyn, ynghyd â buddsoddiad sylweddol o'r awdurdod lleol o ran cefnogi staff; a chefnogaeth ariannol sgiliau sylfaenol targedig amser-gyfyngedig, effeithio'n gadarnhaol ar safonau ar y pryd, fodd bynnag wrth i'r gefnogaeth honno gael ei thynnu ymaith, daeth yn glir fod angen rhagor o newidiadau sylfaenol i wneud gwelliant cynaliadwy.

Mae deilliannau arolwg ers 2017 wedi bod yn gadarnhaol gan fwyaf, heb unrhyw ysgol yn cael ei gosod mewn categori dan adroddiad, ac agweddau o lesiant a gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn cael



eu dyfarnu'n uchel. Fodd bynnag, o'r ysgolion cynradd a gafodd arolwg, dyfarnwyd dysgu ac addysgu fel y maes gwanaf ohonynt i gyd, sef maes sydd angen sylw os yw uchelgais y cynllun hwn am gael ei wireddu.

Cafwyd gwelliannau o ran presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf, ond o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r isaf, neu'n agos at yr isaf, gydag absenoldeb parhaus yn faes o her sylweddol.

Tra mai'r ffigurau ar gyfer gwaharddiad parhaol yw'r isaf yn y rhanbarth, y nifer o waharddiadau byr cyfnod penodol yw'r uchaf, a'r ganran o ddisgyblion a symudwyd ym Mlwyddyn 10 i Addysg Heblaw yn yr Ysgol, yw'r uchaf yng Nghymru.

Ers i'r pandemig ddechrau, mae'r nifer o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi codi gan 18.5% (o 2026 disgybl i 2401). Ar ddiwedd mis Hydref, saif canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim oddi fewn i boblogaeth gyfan yr ysgol bellach ar 27%. Ni wyddys beth yw effaith hir dymor hyn eto, ac mae'n bosibl na fyddwn yn gwybod am rai blynyddoedd.

Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, o'r pedair ysgol uwchradd ym Merthyr Tudful mae gan un ohonynt dros hanner ei disgyblion yn byw o fewn y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig, ac mae gan un arall dros 40% o'i disgyblion yn byw mewn wardiau tebyg. Oddi fewn i ysgolion cynradd, mae gan dair ysgol dros 75% o'u disgyblion yn byw yn y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig tra bo wyth pellach ag o leiaf 25% o'u disgyblion yn byw oddi fewn i wardiau tebyg. Ni ddylid gweld hyn fel esgus a rhaid i'r disgwyliad fod bod pob ysgol yn perfformio o leiaf yn unol ag ysgolion tebyg ar gyfer pob dangosydd. Mae gennym nifer fach o ysgolion o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, fodd bynnag, maint bach ein hawdurdod lleol yw ein hased gorau, o ran y gallwn wneud y mwyaf o hyn er mwyn cynyddu cydweithredu.

Ymhellach, rydym yn cydnabod bod Cenhadaeth Genedlaethol uchelgeisiol dros addysg yn cyfwyno cyfe i siapio sut gaiff addysg ei chyfenwi dros fywyd y strategaeth hon a thu hwnt. Mae ysgolion eisoes yn gweithio tuag at Gwricwlwm i Gymru 2022 a dyma'r adeg ddelfrydol i ymgysylltu â phartneriaid ehangach i ddatblygu addysgu a dysgu arloesol a chyffrous i blant a phobl ifanc Merthyr Tudful. Mae newid o'r fath hefyd yn cyfwyno risgiau ac y mae'n hanfodol bwysig ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hyn i gryfhau addysg i'n holl ddysgwyr yn CBSMT.

Ein nod yw cefnogi'r ymrwymiad hwn drwy ddatblygu dull gweithredu clir, strategol tuag at drefniant ysgol, gwella ysgol a chynaliadwyedd ysgolion, gyda fframwaith sy'n rhesymoli'r amrywiaeth o opsiynau y mae'r tirlun addysgiadol yng Nghymru yn ei ddarparu ar ein cyfer a dynodi sut yr ydym yn gwneud y mwyaf o'r manteision ac o'u heffaith.

Bydd penaethiaid a phartneriaid yn gweithio ynghyd i sefydlu egwyddorion sefydliadau dysgu yn ôl diffiniad Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd:-

- Datblygu a rhannu gweledigaeth gyda dysgu'r holl ddisgyblion yn ganolog iddo
- Creu a chefnogi cyfleoedd dysgu parhaus i'r holl staff
- Hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio i'r holl staff
- Sefydlu diwylliant sy'n ymholi, arloesi ac yn archwilio
- Mewnblannu systemau ar gyfer casglu a chyfnewid gwybodaeth a dysgu
- Dysgu gyda'r amgylchedd allanol ac oddi wrtho a systemau dysgu mwy o faint
- Modelu a thyfu arweinyddiaeth dysgu.

Er mwyn diwallu uchelgais y cynllun, bydd yr holl randdeiliaid yn cefnogi hawliau'r plant a'r bobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau Plant. Bydd yr holl randdeiliaid hefyd yn sicrhau fod egwyddorion Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn cael sylw ac yr ymgwymerir â'r gwaith.

Gweledigaeth a Gwerthoedd

Success for every child – Llwyddiant i bob plentyn

Rhoi cyfle i holl blant a phobl ifanc Merthyr Tudful gael mynediad at addysg o ansawdd uchel fel eu bod yn datblygu fel dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, cyfranwyr arloesol a chreadigol, dinasyddion moesegol-wybodus, unigolion hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn

Rydym yn ymroddedig i:

- Godi dyheadau ein holl blant a phobl ifanc a'n disgwyliadau o'r hyn y gallant ei gyfawni, waeth beth yw eu cefndir
- Hyrwyddo llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol plant a phobl ifanc
- Hyrwyddo llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol ein gweithlu addysg
- Gweithio ar y cyd yn enwedig wrth fynd i'r afael â'r heriau mwyaf
- Ymgysylltu gyda theuluoedd i gysylltu a datblygu eu rôl fel addysgwyr cyntaf a chreiddiol ddylanwadol i'w plant
- Cynnwys ein holl blant a phobl ifanc yn natblygiadau'r dyfodol ar gyfer Merthyr Tudful gan sicrhau fod gwrandawriad i'w syniadau a'u bod yn ffurfio rhan o gynlluniau strategol – gan roi gwir lais iddynt
- Dathlu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol Merthyr Tudful a hyrwyddo ei huchelgais yn y dyfodol ymhlith ein plant a'n pobl ifanc
- Hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ysgolion a'r gymuned ehangach a hyrwyddo hunaniaeth Cymru
- Parchu'r amgylchedd naturiol yn y Fwrdeistref Sirol ac o'i chwmpas a datblygu ymarferion cynaliadwy oddi fewn i leoliadau addysg



Deilliannau a Ddymunir

Drwy gydol oes y strategaeth hon a thu hwnt, ein nod yw gwneud Merthyr Tudful yn lle ble:

Mae plant a phobl ifanc:

- Yn meddu ar ddyheadau a disgwyliadau uchel o'u hunain
- Yn dechrau addysgu statudol ar ôl prof dechrau da i ddysgu yn y cartref ac mewn addysg cyn ysgol ble y bo'n briodol
- Yn derbyn profadau addysg sy'n eu cyffroi a'u hysbrydoli i ddysgu a chyfawni
- Yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau sy'n berthnasol ac yn briodol i fodloni anghenion cwricwlwm 21 ganrif
- Llythrennog, rhifog ac yn gymwys yn ddigidol, yn barod i barhau gyda'u haddysg yn hyderus ac yn llwyddiannus
- Gadael ysgol statudol gyda'r priodoleddau angenrheidiol a sgiliau bywyd i'w galluogi i bontio'n llwyddiannus i gyfogaeth, addysg neu hyfforddiant
- Teimlo'n ddiogel a meddu ar lesiant emosiynol cryf
- Meddu ar lais mewn cynlluniau sy'n effeithio ar eu hiechyd a lles eu hunain yn y dyfodol a chynlluniau ar gyfer datblygu'u hamgylchedd lleol yn y dyfodol
- Meddu ar sgiliau i addasu i'r heriau a'r gallu i weithio fel dinasyddion annibynnol a rhyng-ddibynnol.



Themâu a Nodau

Drwy drafodaeth â grwpiau rhanddeiliaid, cafodd nifer o nodau eu dynodi'n allweddol i sut y byddwn yn cyflymu cyflawniad addysgiadol Merthyr Tudful a sicrhau fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i lwyddo. Rydym yn cydnabod mai dim ond drwy ymrwymiad â'n partneriaeth a chydweithio o du'r holl randdeiliaid y bydd llwyddiant yn cael ei gyflawni gyda'n nodau. Mae cefnogi'r gymuned addysg yn llwyr drwy'r pandemig ac ar ei ôl yn flaenoriaeth i'n gwaith.

Felly rydym yn cynnig edrych ar hyn drwy ddwy thema holl-gyffredinol a gefnogir gan bump o nodau allweddol gwaelodol.





Themâu

THEMA ✓

PARTNERIAETH A CHYDWEITHIO

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Mae holl blant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi gan system addysg gynhwysol, gydweithredol ac arloesol. System ble mae pawb yn deall eu rolau ac yn bartneriaid i lesiant a chyfawniad yr holl ddysgwyr.

Mae pawb sydd yn y pen draw'n elwa o system addysg o ansawdd uchel – lleoliadau addysg, busnesau, teuluoedd, plant a phobl ifanc eu hunain, yn gweithio mewn partneriaeth, i greu'r amodau gorau a fydd yn rhoi cyfe i'r holl ddysgwyr ffynnu a chyfawni'r gorau gallant yn y pen draw.

Pam fod hyn yn bwysig

Dim ond pan fydd cymuned addysg ym Merthyr Tudful, ynghyd â phartneriaid strategol yn cymryd cyfrifoldeb proactif a rennir dros addysg, y byddwn ni'n datblygu a chynnal cyfeodd dysgu o ansawdd uchel dros ein plant a'n pobl ifanc. Rydym yn ymroddedig i gefnogi rôl allweddol teuluoedd prif addysgwyr ein plant a'n pobl ifanc, ond rhaid i ni hefyd dyfu amgylchedd ble mae pawb yn cyfrannu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd at wella cyfeodd addysgiadol i'n holl ddysgwyr. Bydd deall pam fod hyn yn bwysig nid yn unig i gyfeodd bywyd yn y dyfodol i'n plant a'n pobl ifanc ond hefyd llwyddiant yn y dyfodol i'r economi yn y Fwrdeistref Sirol yn llywio'r angen am bartneriaethau dynamig ac uchelgeisiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid.

Mae plant a phobl ifanc eu hunain yn chwarae rôl hanfodol wrth lunio eu cyfeodd yn y dyfodol. Nhw yw cenedlaethau ein dyfodol. Rydym yn falch o'r modd yr ydym ar hyn o bryd yn meithrin diddordeb pobl ifanc yn ein gwaith a byddwn yn parhau i ddatblygu ymgysylltiad ehangach i annog pawb i gael llais mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â gwelliannau i addysg ac adferiad economaidd y Fwrdeistref Sirol.

Rhaid datblygu partneriaethau uchelgeisiol rhwng ysgolion, Merthyr Tudful, addysg uwch, y Cyngor ehangach, gwasanaethau cyhoeddus eraill, busnesau, y trydydd sector a chymunedau'n lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn cyfoethogi profadau dysgu i'r holl ddysgwyr ledled y Fwrdeistref Sirol.

Mae angen i ni sicrhau fod yr holl leoliadau addysg yn anelu at gyfawni rhagoriaeth ac ymrwymiad at gydweithio er budd yr holl ddysgwyr o leoliadau'r Blynnyddoedd Cynnar hyd Ôl-16. Mae Consortiwm Canolbarth y De, ein partner gwella ysgolion rhanbarthol, yn allweddol i gefnogi ein hysgolion i ddatblygu ymagwedd wirioneddol gydweithredol wrth i ni symud at atebolrwydd a rennir ar gyfer deilliannau dysgwyr, gan annog bod yn agored, a thryloyw wrth rannu arfer gorau.

Mae gan yr holl bartneriaid rôl allweddol i'w chwarae i alluogi ein pobl ifanc i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu y tu hwnt i'w haddysg statudol pan fyddant y dyfod yn oedolion ac yn ddinasyddion gwybodus. Bydd creu'r bartneriaeth hon fel thema annatod i strategaeth gyffredinol yn sicrhau gwell cydlyniant a bod deilliannau dan berchnogaeth ar y cyd.

THEMA ✓

ADFERIAD AR ÔL Y PANDEMIG

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Bydd effeithiau niweidiol y pandemig wedi eu goresgyn yn llwyddiannus drwy weithredu cadarnhaol i gefnogi'r dysgwyr a'r teuluoedd hynny a gafodd eu heffeithio waethaf. Bydd hyn yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i, fuddsoddiad digidol mewn ysgolion a chymunedau, ymrwymiad parhaus i gefnogi llesiant i bawb a chynnydd mewn cyfeodd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae partneriaethau cryf rhwng lleoliadau addysg, cymunedau ac asiantaethau ehangach yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr y mae eu bywydau y tu allan i'r ysgol yn ei gwneud hi'n anos iddynt fod yn ddysgwyr llwyddiannus yn yr ysgol. Mae yna ffocws cyfredol ymhlith yr holl bartneriaid ynghylch cau'r bwlch cyfawni ac isafu effaith difreintiedigaeth ar gyrhaeddiad. Mae ysgolion yn ymateb yn hyblyg ac yn arloesol i amgylchiadau newidiol. Mae cysylltiadau cryf rhwng Coleg Merthyr, cyfogywyr a lleoliadau addysg yn sicrhau pontio llwyddiannus i Ôl-16.

Pam fod hyn yn bwysig

Mae'r pandemig, a chau ysgolion o ganlyniad, wedi amddifadu ein plant a'n pobl ifanc o drefn, strwythur, cyfeillgarwch, cyfe a rhyddid. Ni fydd y rheini mewn grwpiau blwyddyn penodol fyth yn adennill yr amseroedd pwysig hynny – y diwrnod olaf yn yr ysgol, prom yr ysgol. Gall y colledion hyn annog ymddangosiad gorbryder, trawma a phrofedigaeth i unrhyw blentyn heb sôn am y rheini sydd wedi colli aelodau agos o'r teulu a ffrindiau oherwydd y feirws. Ni ellir tanbwysleisio hyn ac ynghyd â sefyllfa gyfredol teuluoedd o dan stres ar ôl colli swydd a / neu ostyngiad mewn incwm, mae yna risg y gallai hyn achosi erydiad cyfym o gyfwr iechyd meddwl ein plant.

Wrth i ysgolion weithio i ddarparu dysgu o bell rydym wedi dyfod yn fwy ymwybodol nac erioed o anghydraddoldebau ym mywydau cartref disgyblion. Nid yw hyn ynghylch mynediad at dechnoleg yn unig; y mae ynghylch amser a hyder teuluoedd i ddarllen ac ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc. Tra bo rhai teuluoedd wedi gallu defnyddio gweithgareddau fel ymarfer corff, garddio, coginio i gadw eu plant yn brysur, nid oes hyder gan lawer o deuluoedd eraill, na'r adnoddau, sgiliau gwybodaeth na'r sefyllfa ariannol i gefnogi eu plant i ymgysylltu mewn gweithgareddau dysgu holistig.

Cyn y pandemig roedd yna fwlch enfawr o ran cyfawniad a phrofadau y tu allan i'r ysgol rhwng ein plant a'n pobl ifanc. Bydd y pandemig wedi gwneud hyn yn waeth, a rhaid i ysgolion beidio â dychwelyd at gwricwlwm sy'n cael ei yrru gan wybodaeth a chanlyniadau yn unig, heb wneud peth ymdrech i ddeall sut cafodd dysgwyr eu heffeithio yn eu hysgol.

Mae angen i ni sicrhau fod ysgolion yn derbyn yr offer a'r gefnogaeth gywir i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effeithiau hir dymor y pandemig ar llesiant ein plant a'n pobl ifanc. Wrth edrych ymlaen, mae'n bosibl y bydd cyfnodau pan fydd angen i ysgolion gau eto, felly mae angen i ni gefnogi ein hysgolion i ddatblygu cwricwlwm cydnerth ar gyfer adferiad, sy'n cefnogi'r holl ddysgwyr a'u galluoigi nhw i gyfawni eu dyfodol llwyddiannus.



Nodau



RHEOLI PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU SYSTEM

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Bydd yr holl bartïon sy'n cyfrannu at addysg a dysgu ym Merthyr Tudful yn deall eu rôl a'u hatebolrwydd i'r system yn ei chyfanrwydd. Mae cyfrifoldebau dirprwyedig lleoliadau addysg gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion, yn cael eu deall yn glir, a'u hymarfer yn effeithiol. Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel Awdurdod Lleol a darparwr allweddol gwasanaethau, yn darparu arweinyddiaeth strategol gref, cefnogaeth gref a her briodol i bob lleoliad addysg. Ceir proses dryloyw ar gyfer gwerthuso perfformiad yr holl leoliadau addysg a phwerau statudol yr Awdurdod Lleol i ymyrryd ble y caiff hynny ei warantu. Caiff data am berfformiad dysgwyr ei ddefnyddio'n dda i ddarparu gwybodaeth sy'n tanategu datblygu gwerthusiad a strategaeth. Caiff cryfderau yn y system eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u lledaenu.

Pam fod hyn yn bwysig

Mae addysg ledled Merthyr Tudful dros y deng mlynedd ddiwethaf wedi dangos amrywiaeth o ran perfformiad. Ble y rhoddwyd sylw i wendidau, nid yw'r gweithredu wedi dilyn trefn o arwain at welliant parhaus cynaliadwy. Mae gormod wedi bod yn adweithiol a byr dymor. Cafwyd llawer o drafod am y newidiadau cyfredol i fesurau asesu ac atebolrwydd a dim digon am sut i wella safonau i'r holl ddysgwyr. Heb system llywodraethu cryf, ni fydd rolau perthnasol yr Awdurdod Lleol, Consortiwm Canolbarth y De na'r ysgol a'u cyrff llywodraethu'n cael effaith gadarnhaol. Ble y cafwyd dirywiad o ran perfformiad am nifer o fynyddoedd, nid yw prosesau rheoli perfformiad yn y Cyngor a'r Consortiwm bob amser wedi sicrhau fod gweithredu cywirol wedi digwydd yn ddigon buan.

Ymrwymïadau gweithredu

Byddwn yn:

- Codi dyheadau a chodi safonau i sicrhau dyfodol llwyddiannus i bawb
- Adolygu a chryfhau craffu'r Cyngor o leoliadau addysg a gweithgareddau dysgu adrannol
- Adolygu a chryfhau rôl lleoliadau'r blynyddoedd cynnar a phartneriaid addysg ehangach i wella ansawdd y profad i'r holl ddysgwyr
- Gwellu rheoli a defnyddio data ynghylch perfformiad dysgwyr drwy ddatblygu pellach a defnyddio'r system Capita One
- Adolygu ac arolygu'r bartneriaeth rhwng CBSMT a CCD i sicrhau ei fod yn cyfenwi gwelliant a gwerth da am arian
- Mewnbllannu a datblygu ymhellach ymagwedd at fynd i'r afael â thlodi ar draws lleoliadau addysg
- Cryfhau'r broses ble y caiff Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol eu recriwtio a'u penodi

- Denu rhagor o Lywodraethwyr, yn enwedig ceisio cael gwirfoddolwyr o fusnesau, Addysg Bellach, Addysg Uwch a sefydliadu'r trydydd sector
- Adolygu a chryfhau gweithrediad Fforwm Cyllideb Ysgolion Merthyr Tudful.
- Sefydlu Fforwm Penaethiaid ar gyfer ymgynghori ar holl agweddau nad ydynt yn ariannol a'i ddatblygiad yn y dyfodol.

Mesurau Llwyddiant

- Mae adrodd yn ôl ar system perfformio eang o ran addysg ym Merthyr Tudful yn glir, wedi ei ddeall yn iawn, ac yn uniongyrchol lunio gweithredu yn y dyfodol i gyfenwi gwelliant
- Ceir cydnabyddiaeth glir o'r angen sy'n codi wrth ddefnyddio data yn well i lywio ymyrraeth lwyddiannus a strategaethau ataliol
- Ceir effaith glir o'r gweithredu targedig a gyfenwyd gan y Cyngor a CCD i gefnogi gwelliant mewn ysgolion sy'n tangyfawni
- Caiff llywodraethu ysgolion ei werthuso'n gyson fel da neu well mewn arolygon Estyn, a hunan werthuso gaiff ei ddilysu
- Mae ymatebion meintiol gan Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn cydnabod fod yna fwy o eglurder a gwell aliniad yn rolau perthnasol yr ysgol a CCD a'r awdurdod lleol.





DATBLYGU'R GWEITHLU ADDYSG

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Mae holl blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi gan staff effeithiol a brwdfrydig iawn a thimau cefnogi eraill ar draws yr holl leoliadau addysg. Mae pawb sy'n ymwneud ag addysg yn angerddol ynghylch darparu profiad addysg cyffrous a dyheadol i'n holl blant a phobl ifanc ac yn deall yr awydd am gyrhaeddiad uchel i'r holl ddysgwyr. Caiff staff addysg eu cefnogi i gyfenwi hyn ac maen nhw'n derbyn yr offer a'r sgiliau i gyfawni uchelgais y strategaeth hon.

Pam fod hyn yn bwysig

Y gweithlu addysg yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr ac mae'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau dysgwyr. Yr angen i gyfawni'r deilliannau uchaf posibl i'n plant a'n pobl ifanc yw'r hyn sy'n gyrru'r proffesiwn. Ni fyddwn yn llwyddo yn ein huchelgais ar gyfer plant a phobl ifanc i wneud eu gorau glas, heb allu, gwybodaeth, ymrwymiad angerddol a brwdfrydedd ein holl weithlu addysg. Bydd yn rhaid i unrhyw gynig o ran dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg sicrhau fod hyn yn cael ei gyfenwi.

Rydym yn cefnogi'r uchelgais o 'fliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050' felly rhaid i ni sicrhau fod staff yn cael pob cyfe i ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Mae hefyd angen i ni sicrhau fod yna gyfenwad cyfredol o siaradwyr Cymraeg yn y proffesiwn addysg yn ei gyfanrwydd.

Mae datblygiad staff yn hanfodol, yn enwedig mewn hinsawdd ôl-bandemig sydd eisoes wedi ei osod mewn hinsawdd o newid ar gyfer addysg. Rhaid i lesiant yr holl staff fod yn faenllaw, a rhaid i staff gael pob cyfe i addasu ac uwch-sgilio eu pedagogeg i gyfenwi yn erbyn heriau Cwricwlwm i Gymru 2020,





diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Adferiad ar ôl y Pandemig. Nid yn unig yw'r datblygiad hwn yn bwysig i staff addysgu, ond hefyd i'r staff cefnogi, y blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol gofal plant a'r rheini sy'n cefnogi a chyfenwi addysg yn yr awdurdod lleol.

Mae datblygiad arweinyddiaeth yn rhan annatod o gyfenwi ein huchelgais a rhaid i ni sicrhau nad ydym yn unig yn cadw'r arweinwyr o'r ansawdd gorau i gefnogi capasiti yn ein gweithlu ond hefyd ein bod yn rhoi'r cyfeuedd iddyn nhw ar gyfer twf pellach.

Rhaid i'n cefnogaeth Adnoddau Dynol i ysgolion fod o'r ansawdd uchaf i gefnogi ein harweinwyr i ddatblygu gweithlu cynaliadwy o ansawdd uchel ar draws yr holl leoliadau addysg.

Rhaid i ni hefyd barhau i alluogi cyrff llywodraethu i gefnogi a herio arweinwyr ysgolion i sicrhau'r deilliannau gorau posibl i blant a phobl ifanc yn eu cymuned. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gryfhau cefnogaeth i Lywodraethwyr ac adeiladu ymhellach y cydweithio rhwng cyrff llywodraethu er budd y gymuned ehangach.

Ymrwymadau gweithredu

Byddwn yn:

- Datblygu'r capasiti ymhlith y gweithlu i gyfenwi cwricwlwm adferiad a fydd yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant cadarnhaol yn ogystal â sgiliau sylfaenol allweddol
- Datblygu'r capasiti ymhlith y gweithlu i gyfenwi ymagwedd hybrid at ddysgu sy'n hyblyg i'r sefyllfa bresennol
- Sefydlu diwylliant lleoliadau addysg fel 'sefydliadau dysgu' gan sicrhau fod gan yr holl staff y gefnogaeth a'r gallu i addasu a newid oddi fewn i ddisgwyliad o sicrhau llesiant a deilliannau cadarnhaol i'r holl ddysgwyr
- Gweithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau fod staff addysg yn cael mynediad at y profadau ehangaf posibl i wella eu sgiliau proffesiynol a chefnogi profadau dysgu o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc
- Datblygu cyfeuedd ar gyfer arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol i ehangu eu sgiliau arwain gan ddefnyddio nid yn unig y cyfeuedd ym Merthyr Tudful a'r ardal ond hefyd gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a rhaglenni arwain holistig ehangach
- Sicrhau fod cefnogaeth AD yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion y gweithlu
- Lansio a chynnal ymgyrchoedd recriwtio i ddenu athrawon i Ferthyr Tudful a hyrwyddo buddion byw yng nghalon Blaenau'r Cymoedd a'i agosatrwydd at Dde a Chanolbarth Cymru
- Adeiladu ar y rhaglen hyfforddiant gyfredol i Lywodraethwyr, annog cydweithio pellach rhwng cyrff llywodraethu, yn enwedig oddi fewn i glystyrau ond hefyd yn benodol ar draws ysgolion uwchradd
- Cytuno a gweithredu Siarter Llesiant Staff yr Ysgol.

Mesurau Llwyddiant

- Dengys gwiriad allanol fod yna gynnydd mewn ysgolion a lleoliadau sy'n darparu profadau dysgu da neu ardderchog i blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful
- Dengys gwiriad allanol fod yna arweinyddiaeth dda, o leiaf, ar draws yr holl leoliadau addysg yn y Fwrdeistref Sirol
- Mae arolygon staff yn cydnabod y cyfeuedd dysgu proffesiynol sydd yn agored i'r holl staff
- Mae gwiriad allanol yn cydnabod llywodraethu o ansawdd uchel ym mhob ysgol
- Tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus rhwng gweithluoedd addysg ledled y Fwrdeistref Sirol
- Gwell llesiant a phresenoldeb i staff
- Lleihad o ran swyddi gwag yn enwedig pan fo prinder o ran meysydd pynciol



CEFNOGI IECHYD A LLESIANT DYSGWYR

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Gall holl blant a phobl ifanc Merthyr Tudful gael mynediad yn hawdd at y gefnogaeth angenrheidiol i wella eu llesiant emosiynol, meddyliol a chorfforol ac felly maen nhw'n barod ac yn alluog i ddysgu.

Mae'r holl bartneriaid yn meithrin buddion perthyn, cyfeillgarwch, perthnasoedd, teuluoedd a chymunedau ym mywydau ein plant a'n pobl ifanc ac yn gweithio ynghyd i sicrhau fod y rhain yn rhan annatod o brofad addysgol cadarnhaol.

Pam fod hyn yn bwysig

Cyn y pandemig roedd plant a phobl ifanc yn gynyddol lafar am bwysigrwydd llesiant. Mae'r ffocws hwn bellach yn bwysicach nac erioed a rhaid i ni gefnogi ein plant a'n pobl ifanc mewn perthynas â chadw'n ddiogel, rheoli perthnasoedd a gweithio eu ffordd drwy heriau tyfu i fyny mewn byd ansicr sy'n ceisio adferiad yn sgil yr heriau economaidd ddaeth yn sgil y pandemig.

Fel awdurdod lleol, bu presenoldeb yn yr ysgol ymhlith yr isaf yng Nghymru am nifer o fynyddoedd er gwaetha'r bwch yn cau rhwng awdurdodau eraill, mae canran absenoldeb parhaus yn parhau'n rhy uchel.

Mae angen i ni adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o bartneriaeth Cwm Taf Ynghyd Dros Iechyd Meddwl, datblygu hyfforddiant Profad Niweidiol yn Ystod Plentyndod ac effaith Heini Merthyr i sicrhau fod y system addysg gyfawn yn blaenoriaethu llesiant meddyliol a chorfforol ein pobl ifanc. Rhaid i ni ddatblygu ymagwedd fwy integredig at addysg, iechyd a gofal yn ddi-oed, yn ystod ein hadferiad o effeithiau'r pandemig.

Mae'r gwaith mae ein Cabinet Ieuencid wedi ymgymryd ag e i gefnogi llesiant meddyliol drwy eu pecynnau offer ar gyfer dysgwyr oed cynradd ac uwchradd wedi cael derbyniad cadarnhaol ond mae llawer mwy i'w wneud i gynnwys llesiant dysgwr fel disgwyliad cydradd â chyfawniad academiaidd. Mae cyfrifoldeb arnom i wrando ar safbwyntiau ein pobl ifanc a datblygu gwell systemau i'w cefnogi nhw i ffynnu.



Rhaid peidio ag anghofo rôl llesiant corfforol. Bydd cynnwys gweithgaredd corfforol fel arferiad am oes yn gwella iechyd plant a phobl ifanc nawr ac yn y dyfodol a bydd yn arwain at wella hunan hyder, sgiliau cymdeithasol a lleihau gorbryder ac iselder.

Ymrwymïadau gweithredu

Byddwn yn:

- Datblygu a hyrwyddo cynllun clir o ran cefnogaeth emosiynol a llesiant i deuluoedd, plant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth gan holl wasanaethau'r Awdurdod Lleol a phartneriaid ehangach yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Sicrhau bod yr holl leoliadau'n darparu cyfeuedd dysgu proffesiynol effeithiol i ddatblygu staff sy'n hyderus i gyfenwi cefnogaeth llythrennedd emosiynol i blant a phobl ifanc
- Cyfwyno offer llesiant i blant a phobl ifanc ei ddefnyddio i gefnogi eu llesiant emosiynol eu hunain
- Sicrhau fod y Ganolfan/Hyb Help Cynnar yn hygyrch i bawb, gan ddarparu cefnogaeth ar y foment gynharaf posibl i'r rheini sydd â'i angen
- Sicrhau fod cyfeuedd oddi wrth weithgareddau Teuluoedd yn Gyntaf yn rhoi budd i'r amrywiaeth ehangaf posib o deuluoedd
- Gwella ymgysylltiad ysgolion yng Nghynnig Ysgolion Iach a Heini Merthyr gan felly wella cyfeuedd i blant a phobl ifanc i fod yn actif ac iach
- Darparu rhagor o gyfeuedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fod yn fwy actif yn gorfforol drwy amrywiaeth o bartneriaethau yn lleol a thu hwnt
- Gwneud y mwyaf o'r cyfeuedd i blant gael mynediad at chwarae yn yr awyr agored drwy sicrhau fod yna wagleoedd gwyrdd diogel, awyr agored
- Darparu mynediad at wasanaethau a gweithgareddau i bobl ifanc y tu allan i'r ysgol sy'n cefnogi eu datblygiad fel unigolion ac aelodau o'u cymuned

Mesurau Llwyddiant

- Cynnydd o ran presenoldeb yn yr ysgol ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd
- Gostyngiad yn y nifer o waharddiadau ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd
- Caiff pecyn offer breguster ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gefnogi ymyrraeth i ddysgwyr dynodedig
- Mae plant a phobl ifanc yn adrodd yn ôl bod eu llesiant yn dda, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu dysgu, eu bod yn hapus ac yn fwy parod i ddysgu
- Llai o blant yn datblygu problemau iechyd meddwl difrifol a bod y sawl sydd, yn cael mynediad at gefnogaeth effeithiol o ansawdd uchel
- Cynnydd o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn yr holl leoliadau addysg
- Cynnydd mewn ymgysylltiad â gweithgaredd corfforol y tu allan i'r ysgol
- Datblygiad pellach o weithgareddau sy'n cefnogi teuluoedd mewn angen yn ystod cyfnodau gwyliau





GWELLA CYFLAWNIAD A DILYNIANT

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Mae holl blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ôl-16 yn cael mynediad at gwricwlwm ysbrydoledig, heriol, perthnasol ac uchelgeisiol sy'n eu taclu ar gyfer dyfodol llwyddiannus.

Mae'r cwricwlwm a gyfenwyd yn cynnig y cyfe i'r holl ddysgwyr ddyfod yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, yn ddinasyddion gwybodus moesegol, yn fentrus ac yn gyfranogwyr creadigol ac yn unigolion iach a hyderus. Y mae'n arloesol ac yn ymateb i anghenion yr holl ddysgwyr ac yn sicrhau fod yr holl ddysgwyr yn llythrennog, rhifog a chymwys yn ddigidol, ac yn eu galluogi nhw i sicrhau eu safe mewn cyfogaeth berthnasol a hyfforddiant ar y lefel uchaf bosibl.

Mae gan yr holl ddysgwyr y cyfe i ymgysylltu mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r cysylltiadau rhwng partneriaid megis Mudiad Meithrin, Yr Urdd a'r Fenter Iaith yn amlwg ar draws lleoliadau gwaith ac addysg.

Mae llwybr dilyniant clir mewn lle o'r Blynyddoedd Cynnar i Ôl-16 sy'n herio a chefnogi'r holl ddysgwyr i gyfawni eu gorau glas. Mae'r pontio rhwng y blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd ac o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd yn llyfn. Bydd pob lleoliad addysg yn deall y rôl mae'n chwarae wrth baratoi plant a phobl ifanc ar gyfer y cam nesaf mewn dysgu ffurfol ond hefyd wrth barchu a gwerthfawrogi'r rôl a gyfawnwyd gan y lleoliad blaenorol.

Pam fod hyn yn bwysig

O fs Medi 2022, bydd ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, a ariennir, yn cyfwyno Cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol bydd dysgu ac addysgu yn parhau i gael eu heffeithio gan bandemig Covid-19 yn ystod y fwyddyn 2020/21. Bydd yr ymagweddau mae ysgolion a lleoliadau yn eu dilyn yn parhau i esblygu i ddarparu dysgu yn yr ysgol a thu hwnt os yw'r angen yn codi. Mae'n ddigon posibl y bydd y cydbwysedd rhwng dysgu mewn ysgolion a lleoliadau a'r amser gaiff ei dreulio rywle arall yn newid mewn mannau penodol mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r her hwn yn gofyn bod ysgolion yn addasu cynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn hyblyg ac yn ymateb i amgylchiadau newidiol.

Mae gormod o bobl ifanc yn dadymafael a'r ysgol yn ystod addysg uwchradd ac angen addysg heblaw yn yr ysgol. Rhaid datblygu'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion yr holl bobl ifanc fel eu bod yn cael pob cyfe i gyfawni eu gorau glas.



Fodd bynnag, ni ellir anwybyddu'r heriau dros wella deilliannau academiaidd i blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful. Rhaid i ni gymryd mantais llawn o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd a'u plant. Rhaid i ni ddatblygu ffocws o'r newydd ar sicrhau fod ein dysgwyr yn cael eu cefnogi i gyfawni'r sgiliau uchaf posibl o ran llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae angen i'r sgiliau hyn gael eu datblygu drwy'r blynyddoedd cynnar i ysgol a gynhelir a thu hwnt. Dylai bod disgwyliadau clir

y gellir eu cyfenwi ar gyfer pontio llwyddiannus rhwng gwahanol gamau mewn addysg.

Rhaid dehongli Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 fel cyfe i sicrhau bod anghenion ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu diwallu. Drwy bartneriaethau cydlynol ag asiantaethau cefnogi eraill, rhaid i ni ddatblygu cyfeuedd i ddysgwyr o bob gallu i ffynnu a symud ymlaen.

Rhaid i ni weithio gyda'n partneriaid busnes i sefydlu cwricwlwm sy'n cyfwyno dysgwyr o oed cynradd hŷn i mewn i fyd gwaith. Cwricwlwm sy'n cynnig llwybrau amgen at addysg bellach, cyfogaeth a hyfforddiant ac un sy'n annog dysgwyr i ymgysylltu ar bob lefel. Bydd partneriaid ac ysgolion yn cydweithio i ystyried y posibiladau a ddaw gyda'r cwricwlwm newydd a datblygu profadau newydd ac ymgysylltiol i ddysgwyr – busnes ac addysg ynghyd.

Rhaid i ni weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid ehangach i sicrhau cyfeuedd i blant, a phobl ifanc a'u teuluoedd i ymgysylltu â phrofadau cyffrous ac arloesol sy'n eu hannog i ddatblygu sgiliau dysgu gydol oes.

Ymrwymïadau gweithredu

Byddwn yn:

- Sicrhau fod yr holl leoliadau addysg wedi eu taclu i ddatblygu cwricwlwm arloesol y gellir ei addasu a'i gyfenwi y tu allan i leoliadau pe byddai'r angen yn codi
- Sicrhau fod yr holl leoliadau addysg wedi eu taclu i weithredu Cwricwlwm i Gymru pan gaiff ei gyfwyno
- Sicrhau fod yr holl leoliadau addysg wedi eu taclu i weithredu Deddf ADYTA wrth iddi gael ei chyfwyno
- Datblygu'r cryfderau oddi fewn i leoliadau cyfredol i gefnogi cyfawniad academiaidd i'n plant a phobl ifanc na all gael mynediad at gyfeuedd llawn prif ffrwd
- Datblygu llwybrau uchelgeisiol a fydd yn cefnogi datblygiad lefelau uchel o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at Ôl-16
- Sicrhau fod Cynllun Strategol Addysg yng Nghymru yn mynegi'r uchelgais i ddatblygu ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol, gyda chefnogaeth yr holl bartneriaid
- Datblygu rhwydwaith Busnes ac Addysg Ynghyd Merthyr Tudful sy'n cefnogi dysgwyr i nid yn unig ymgysylltu gyda byd gwaith o'r cyfe cynharaf posibl ond hefyd i wella cyfenwad o'r cwricwlwm gan gynnig llwybrau amgen i bobl ifanc at addysg gyfogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol

Mesurau Llwyddiant

- Erbyn diwedd oes y cynllun hwn bydd deilliannau dysgwyr i Ferthyr Tudful ym mhob lleoliad yn ôl y disgwyliadau neu'n uwch na'r disgwyliadau ar gyfer lleoliadau tebyg ledled Cymru
- Mae pob lleoliad addysg yn deall eu rôl yng nghyfeuedd bywyd ein plant a'n pobl ifanc ac mae cyrhaeddiad yn uwch ym mhob cam o'r dysgu
- Bydd rhagor o ddysgwyr yn cael mynediad at addysg bellach a hyfforddiant fel lefel uwch
- Caiff cyfeuedd ar gyfer llwybrau prentisiaeth eu datblygu'n dda a byddant yn addasadwy i adlewyrchu'r angen lleol a rhanbarthol ar gyfer twf busnes
- Mae arolygon dysgwyr yn dangos fod y cwricwlwm yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a bod pobl ifanc yn fwy hyderus wrth bontio i fyd gwaith
- Cynnydd yn y niferoedd o bobl ifanc sy'n cael mynediad at addysg lefel uwch, cyfogaeth neu gyfeuedd hyfforddi ôl-16 ac ôl-18.





DATBLYGU'R AMGYLCHEDD AR GYFER DYSGU

Beth fyddwn ni'n anelu ato....

Bod amgylcheddau addysgu a dysgu priodol o ansawdd uchel ar gael i'r holl blant a phobl ifanc. Bod pob ysgol yn cyfenwi gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gymuned a'u cefnogi drwy amgylchedd diogel ac ysbrydoledig ar gyfer dysgu y tu fewn a thu allan. Bod y defnydd o dechnolegau digidol yn gwella'r cyfe i ddysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Pam fod hyn yn bwysig

Cafwyd datblygiad i ystâd yr ysgol gan ddefnyddio Band A Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif drwy ailwampio Ysgol Uwchradd Afon Taf a datblygiad cyfredol Ysgol gynradd y Graig. Ym Mand B y rhaglen honno, ceir cynlluniau i adeiladu Ysgol Ffydd 3-16 oed, ailwampio Ysgol Uwchradd Pen y Dre ac adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Gynradd Goetre. Ceir cynlluniau hefyd ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Fwrdeistref. Rhaid ystyried cynlluniau pellach yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol² a'r Strategaeth Twf Economaidd i dargedu buddsoddiadau sy'n gwella ansawdd cyffredinol yr ystâd addysg gyfawn, nid ysgolion yn unig. Bydd y buddsoddiad hwn yn mynd y tu hwnt i oes y cynllun hwn a bydd yn cynnwys cyfeuedd i ddatblygu lleoliadau addysg carbon niwtral a lleoliadau sy'n fwy effeithlon o ran ynni.

Mae lleoliadau addysg yn rhan annatod o'u cymuned leol a rhaid i ni ystyried sut y gallan nhw gael eu defnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi anghenion eu cymunedau.

Fodd bynnag, nid adeiladau ysgol yn unig yw amgylcheddau dysgu ac mae angen i ni sicrhau fod ein hamgylchedd ehangach yn cefnogi dysgu ac y gellir ei addasu ar gyfer y dyfodol. Un ffordd o gyfenwi hyn yw Cynllun Cyfarthfa, ond mae angen i ni hefyd ganolbwyntio ar y dysgu a all ddigwydd eisoes ledled y Fwrdeistref Sirol gan ddefnyddio gwagleoedd awyr agored a darparwyr eraill.

Mae'r pandemig wedi dangos i ni fod yna lefelau uchel o waharddiad digidol ledled y Fwrdeistref Sirol a rhaid i ni sicrhau fod hyn yn derbyn sylw drwy fuddsoddiad mewn isadeiledd digidol a datblygu'r cyfe i ddefnyddio technoleg ddigidol mor aml â phosibl.

² Cynllun Datblygu Lleol




Ymrwymadau gweithredu

Byddwn yn:

- Cyfenwi Band B Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif a datblygu a cheisio cael ymrwymiad at gynllun hir dymor ar gyfer gwelliannau ystâd y dyfodol
- Adolygu'r dalgylch presennol i ysgolion ac ystyried a yw hyn yn ffit i bwrpas ac angen
- Cyfawni gwerthusiad cydnerth o'r stoc bresennol i sicrhau fod cynlluniau ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar dystiolaeth angen gadarn
- Sicrhau fod gwasanaethau eiddo yn gallu cefnogi cyfenwi rhaglen cynnal a chadw pwrpasol
- Datblygu polisi Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar Gymuned
- Sicrhau fod Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn cefnogi gofynion Cwricwlwm i Gymru gan adeiladu a gweithredu ar y wybodaeth am ble ceir y mwyaf o waharddiad digidol
- Darparu mwy o gyfeuedd ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth

Mesurau Llwyddiant

- Cyfenwi rhaglen rheoli asedau sy'n gwella cyfwr yr holl stoc addysg sy'n arwain at o ragor o ddealltwriaeth o angen a chynllun i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o rhaglen ddeng mlynedd o newid amgylcheddol sy'n cyfenwi ar amser ac yn trawsnewid cyfeuedd addysgiadol i ddysgwyr drwy adeiladau newydd a gwelliannau cyfalaf.
- Caiff ysgolion eu defnyddio fel asedau cymunedol hygyrch
- Bod y lled fwyaf posibl ar gael ar gyfer band eang ledled y Fwrdeistref Sirol o ysgolion yn cael mynediad at y technolegau o ansawdd uchaf
- Bod pob lleoliad addysg yn defnyddio dysgu awyr agored fel rhan annatod o'u gweithgareddau beunyddiol.





CODI DYHEADAU
CODI SAFONAU
Llwyddiant i bob plentyn